**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**PAPUR GWYRDD AR DAI : YSTYRIED YMATEB AR GYFER ADRAN YR AMGYLCHEDD, TRAFNIDIAETH A'R RHANBARTHAU (DETR)**

**Mater**

1. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r prif gynigion a gynhwysir yn y Papur Gwyrdd ar Dai fel cymorth i ffurfio ymateb y Pwyllgor.

**Argymhellion**

2. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y crynodeb amgaeëdig o'r cynigion yn y papur Gwyrdd ar Dai ynghyd â'r ymateb arfaethedig i'r DETR.

**Amseru**

2. Cyflwynir ymateb sy'n adlewyrchu barn y Pwyllgor cyn y dyddiad terfynol ar gyfer ymgynghori, sef 31 Gorffennaf.

**Cefndir**

4. Dosbarthwyd y Papur Gwyrdd ar Dai ar 4 Ebrill. Mae'n cynnwys ystod eang o faterion sy'n ymwneud â thai a newidiadau arfaethedig i weinyddu budd-daliadau tai. Yn gyffredinol, mae'r cynigion yn y Papur Gwyrdd yn gyson â'r prif themâu sydd wedi amlygu o'r Tasgluoedd Strategaeth Tai Genedlaethol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried adroddiadau'r Tasgluoedd ar hyn o bryd ynghyd â'r Papur Gwyrdd gyda'r bwriad o ymgymryd ag ymgynghoriad yn yr hydref ar ei gynigion ar gyfer strategaeth tai genedlaethol.

5. Pan ystyriodd y Pwyllgor y Papur Gwyrdd ar Dai ar 18 Mai, teimlai ei bod yn bwysig i'r Cynulliad Cenedlaethol ymateb i'r DETR. Yn **Atodiad 1,** clustnodir y prif faterion a'r cynigion polisi y mae Llywodraeth y DU yn ceisio sylwadau arnynt a bydd rhai o'r rhain yn arwain at ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'n amlygu meysydd penodol y gallai'r Pwyllgor fod am ystyried ei ymateb iddynt.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2000**